

CYD GRŴP CRAFFU Y PARCIAU CENEDLAETHOL AR YR ECONOMI

8 Gorffennaf 2015

Yn Bresennol:

Cynrychiolwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

Aelodau: Mrs G Hayward (Cadeirydd), Cynghorwyr B Kilmister a Mr AE Sangster.

Swyddogion: Mr Tegryn Jones, Prif Weithredwr, a Mrs Janet Evans, Rheolwr y Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd.

Cynrychiolydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

Aelodau: Dr I ap Gwyn a'r Cynghorydd Mrs E Roberts.

Swyddogion: Mr E Williams, Prif Weithredwr, Mr GI Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Mr J Cawley, Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol.

(Drwy gynhadledd fideo rhwng Parc Llanion, Doc Penfro a Phenrhyndeudraeth: 2.00p.m. – 3.15p.m.)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr DGM James ac RM Lewis (APCAP) a'r Cynghorwyr J MacLennan a C Roberts (APCE).

2. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6^{ed} o Fai 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

CYTUNWYD i gadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6^{ed} o Fai 2015.

4. Adroddiad drafft ar y canfyddiadau

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau ei bod yn y cyfarfod diwethaf wedi cyflwyno'i hadroddiad drafft ar y canfyddiadau am sylwadau. Barnwyd bod angen mwy o sylwadau neu dystiolaeth ar rai o'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad, ac y cytunwyd yn y diwedd bod yr Awdurdodau unigol yn cyflwyno'r manylion hynny er mwyn gallu cyflwyno adroddiad terfynol gerbron y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau. Roedd yr adroddiad drafft diwygiedig oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw yn ymgorffori'r sylwadau a wnaed yn y cyfamser, ond roedd y Cadeirydd o'r farn bod dal

rhai elfennau oedd angen eglurhad arnynt. Gofynnodd am sylwadau'r Aelodau ar y pwyntiau a godwyd, ond gyda golwg ar gael adroddiad terfynol y diwrnod hwnnw.

Bu'r Aelodau yn trafod yr adroddiad drafft am hir gan awgrymu newidiadau, ail-eirio ac ati. Derbyniwyd bod angen gwneud rhai newidiadau cyn cyhoeddi'r ddogfen derfynol.

CYTUNWYD bod Prif Weithredwyr y ddau Awdurdod yn gweithio gyda'i gilydd i ymgorffori'r awgrymiadau a wnaed gan yr Aelodau a'r swyddogion yn y cyfarfod, a bod y drafft terfynol o'r adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w drafod.